

# GADEWCH I'N GERDDI FYW!

Maniffesto ar gyfer Gerddi, Pobl a Natur



**Fforwm Garddio Bywyd Gwylt**

[www.wlgf.org](http://www.wlgf.org)

Consortiwm o brif sefydliadau bywyd gwyllt a garddwriaethol y Deyrnas Unedig, o'r sectorau preifat a chyhoeddus, yw'r **Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt**.

Mae'r **Maniffesto** hwn yn pwysleisio pwysigrwydd gerddi, i fywyd gwyllt ac i iechyd a lles pobl. Anelir y maniffesto at y rhai sy'n gwneud ac yn dylanwadu ar benderfyniadau.

Mae'n nodi rhai o'r **camau** y mae angen inni eu cymryd i warchod gerddi – ac i helpu mwy o bobl i fwynhau ac i gynnal y bywyd gwyllt yn eu gerddi.



# Ein gweledigaeth ar gyfer garddio a bywyd gwyllt

## Rydym eisiau i fwy o bobl:

- ddarganfod pa mor bwysig all gerddi fod i fywyd gwyllt
- cael pleser, diddordeb a buddion iechyd o arddio gan gadw bywyd gwyllt mewn cof
- defnyddio gerddi i roi amgylchedd mwy cyfoethog i blant gael dysgu a chwarae
- deall sut y gallant addasu eu dulliau garddio i gynnig cynefinoedd newydd gwerthfawr i fywyd gwyllt

## Rydym eisiau i bobl greu mwy o erddi sydd:

- yn lleoedd hardd a heddychlon i'w mwynhau
- yn cynnwys cynefinoedd i fywyd gwyllt sy'n ategu'r rhai mewn gerddi a mannau gwyrdd cyfagos
- yn ffurfio rhwydwaith gwyrdd i helpu i'n hamddiffyn ni rhag llifogydd a gorboethi
- yn ehangu'r adnoddau sydd ar gael i fywyd gwyllt mewn amgylchedd byd-eang sy'n newid

## Rydym eisiau codi ymwybyddiaeth am fuddion amgylcheddol garddio gan gadw bywyd gwyllt mewn cof trwy hybu:

- defnyddio deunyddiau o ffynonellau a reolir yn gynaliadwy, fel compost di-fawn
- technegau garddio sy'n helpu bywyd gwyllt i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd
- tyfu bwyd gartref gan ddefnyddio dulliau ecogyfeillgar, er mwyn byw'n fwy iach a lleihau teithiau bwyd
- osgoi rhywogaethau planhigion goresgynnol neu gynhyrchion sy'n amlwg yn niweidiol i fywyd gwyllt
- rheoli gerddi'n llai dwys
- defnyddio llai o goncrïd, cerrig pafin a decin mewn gerddi – wynebâu nad ydynt yn cynnal llawer o fywyd gwyllt, os o gwbl

## Gerddi a bywyd gwylt: y broblem

Gerddi yw 4,330 cilometr sgwâr o'r Deyrnas Unedig, arwynebedd cyfwerth â phumed ran o Gymru. Boed mawr neu fach, trefol neu wledig, gall gerddi gynnal amrywiaeth anhygoel o blanhigion ac infertebratau, sy'n fwyd i lawer o adar, mamaliaid, ymlusgiaid ac amffibiaid.

Ond ledled y wlad, mae'r cynefin bywyd gwylt a gynigir gan lawer o erddi'n dirywio. Adeiladwyd tai 'mewnlenwi' newydd ar gyn-erddi domestig aeddfed; mae gan fwy o bobl batios â cherrig pafin yn eu gerddi na sydd â choed; mae decin a manau parcio i geir wedi tynnu mwy o gynefin byth.

Er enghraifft, yn Llundain rhwng 1990 a 2008, collwyd 30 km<sup>2</sup> o lystyfiant gerddi i gerrig pafin neu adeiladau – cyfwerth â dau Hyde Park a hanner bob blwyddyn. Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn waeth mewn manau; er enghraifft, mae bron hanner perchnogion tai gogledd ddwyrain Lloegr wedi gosod cerrig pafin dros y rhan fwyaf o'u gerddi blaen.



*'Erbyn hyn mae gan fwy o bobl batios â cherrig pafin yn eu gerddi na sydd â choed'*

## Gerddi a bywyd gwyllt: y potensial

Nid yw gerddi'n gallu cymryd lle cynefinoedd arbenigol. Fodd bynnag, gallant gynnig hafan i lawer o'r rhywogaethau sydd bellach yn prinhanu ar dir ffermio a reolir yn ddwys yng nghefn gwlad, o wenyw bŵm a draenogod i fronfreithod a brogaod.

Wrth i'n hinsawdd newid, bydd y rhwydwaith gerddi'n helpu ein bywyd gwyllt i ymaddasu a mudo drwy'r wlad.

**I fynd i'r afael â'r problemau a gwireddu potensial ein gerddi, mae angen inni:**



- gasglu a dehongli tystiolaeth am rôl gerddi o ran cynnal bioamrywiaeth a chynaliadwyedd amgylcheddol
- cefnogi astudiaethau ar y ffordd orau i reoli gerddi unigol, cymdogaethau a manau gwyrdd cyhoeddus ar gyfer bywyd gwyllt
- hybu ymchwil a phrofion ar gyfer planhigion a chynhyrchion masnachol sydd â'r nod o ddenu neu gynnal bywyd gwyllt mewn gerddi, fel y gall pobl ddewis planhigion a chynhyrchion a fydd wir o gymorth i fywyd gwyllt a'r amgylchedd
- denu mwy o bobl i gymryd rhan mewn monitro bywyd gwyllt mewn gerddi er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o newid amgylcheddol



# Sut y gall garddio bywyd gwyllt fod o fudd i bobl

Mae ymchwil wedi dangos bod gerddi a bywyd gwyllt yn llesol i iechyd, hapusrwydd a lles pobl.



Llun: RSPBImages.com

*'Yn yr ardd y bydd llawer o blant yn cysylltu â'r byd naturiol am y tro cyntaf'*

Mae gan erddi gyfuniad unigryw o rolau – dosbarth awyr agored a lle chwarae; man ar gyfer ymarfer corff ac ymlacio iachus a chynhyrchiol; a hafan breifat i bobl a bywyd gwyllt.

Yn yr ardd y bydd llawer o blant yn cysylltu â'r byd naturiol am y tro cyntaf. Yn aml, dyma'r unig fan bellach lle bydd oedolion yn gweld unrhyw fywyd gwyllt nad yw ar sgrin.

**I sicrhau bod y buddion hyn yn cael eu gwireddu'n llawn, mae angen inni:**

- helpu pobl i werthfawrogi bywyd gwyllt a'i fwynhau yn eu gerddi, gan eu hannog i werthfawrogi bioamrywiaeth a'r amgylchedd yn fwy
- gwybodaeth symlach, fwy cyson wedi ei seilio ar ffeithiau i helpu pobl i wneud dewisiadau gwybodus am eu harferion garddio er eu budd eu hunain, yr amgylchedd a bywyd gwyllt
- sicrhau bod gan bob plentyn fynediad i ardd llawn bywyd gwyllt, gartref ac yn yr ysgol




# Gerddi a'r Amgylchedd Dynol: Cynllunio a Datblygu

Gall gerddi helpu i wneud trefi a dinasoedd yn lleoedd mwy dymunol i fyw ynddynt. Gallant gynorthwyo i ddraenio dŵr glaw yn araf ac yn ddiogel, gan leihau perygl fflachlifogydd. Gallant hefyd hidlo allan lwch atmosfferig, lleihau cyflymder y gwynt a lleihau'r effaith ynys wres sy'n gallu lladd pobl fregus yn ystod ton wres. Eto i gyd, mae gerddi'n dal i fod o dan fygythiad gan fewnlenwi a thirweddu caled. Unwaith yr adeiladir ar erddi, maent wedi eu colli am byth.

**I fynd i'r afael â hyn, mae angen i benderfynwyr:**

- gydnabod pwysigrwydd gerddi a seilwaith gwyrdd i'r amgylchedd, bywyd gwylt, lles pobl a chydlyniant cymdeithasol
- sicrhau bod gan drefi a dinasoedd ddigon o erddi preifat a mannau gwyrdd cyhoeddus fel bod modd byw ynddynt
- diogelu'r gerddi presennol a rheoli mannau gwyrdd cyhoeddus yn fwy effeithiol ar gyfer bywyd gwylt a phobl
- creu nodweddion i ddenu bywyd gwylt mewn datblygiadau newydd



Llun: Alison Loram

# 10 ffordd syml i helpu bywyd gwyllt mewn gerddi

- Tyfu amrywiaeth o goed, llwyni a phlanhigion dringo, a phlannu perth, i gynnig bwyd a chysgod
- Gofalu am goed aeddfed yn eich gardd ac yn yr ardal gyfagos – y nhw yw'r nodweddion gorau i lawer o rywogaethau bywyd gwyllt
- Cynnwys dŵr – mae clawr bin wyneb i waered yn ddechreuad, neu'n well byth, pwll
- Ychwanegu lliw i'ch gardd drwy gydol y flwyddyn gyda blodau llawn paill a neithdar i'r gwenyn, ieir bach yr haf a phryfed eraill
- Creu pentwr o bren marw, wedi ei hanner gladdu o ddewis, i gynnig cartref i bopeth o chwilod i ddraenogod
- Adeiladu tomen gompost, sy'n helpu bywyd gwyllt *a'ch* garddio
- Rhoi bwyd a dŵr i'r adar drwy'r flwyddyn. Cadwch y porthwyr yn lân i osgoi lledu heintiau
- Ymlacio! Gadewch lonydd i rai mannau yn yr ardd, a chymerwch amser i fwynhau'r bywyd gwyllt a ddenir ganddynt
- Gadael i ddarn o'r lawnt dyfu'n hirach, gan helpu planhigion blodeuol i flodeuo, a chreu cynefin i bryfed a mamaliaid bach
- Defnyddio dŵr, mawn, cemegion ac adnoddau eraill cyn lleied â phosibl i leihau eich effaith ar yr amgylchedd ehangach

Llun: Adrian Thomas

Sefydliad o wirfoddolwyr yw'r Fforwm Garddio Bywyd Gwyllt sydd â'r nod o sicrhau bod garddwyr a gwneuthurwyr polisi yn gwybod pa mor bwysig yw gerddi i fywyd gwyllt, iechyd pobl ac amgylchedd cynaliadwy, ac sy'n gweithio i helpu sefydliadau i rannu profiadau ac arferion gorau. Gall pobl ymuno fel unigolion, ac rydym yn gwahodd sefydliadau sy'n cefnogi'r maniffesto hwn i ymuno â ni fel partneriaid.

Gwefan: [www.wlgf.org](http://www.wlgf.org)

Cysylltu: [info@wlgf.org](mailto:info@wlgf.org)

Rhif elusen gofrestredig y Wildlife Gardening Forum yw 1156608

Wildlife  
Gardening  
Forum